



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**  
**Meithrinfa Bwthyn Bach**  
**2 Bwthyn Brynhyfryd**  
**Y Lawnt**  
**Dinbych**  
**LL16 5TL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011**

**gan**  
**Peter Roach**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa pedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor  
Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleoliad preifat dwyieithog ydy Bwthyn Bach a agorwyd ym mis Ebrill 2002. Lleolir ar gyrion tref Dinbych yn Sir Ddinbych. Nid yw'r ardal yn cael ei hystyried yn un arbennig o ffyniannus nac o dan anfantais ychwaith. Daw'r plant o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd amrywiol.

Mae'r lleoliad yn darparu gofal i blant o ychydig o fisoedd oed, tan eu bod yn symud ymlaen i'r cyfnod nesa yn eu haddysg. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn arolygu'r lleoliad yn flynyddol, bu'r arolwg olaf ym mis Medi 2010. Mae'r lleoliad wedi ei gofrestru i ddarparu gofal i 26 o blant, o dan drefniadau'r Bartneriaeth leol, caiff lleoedd y plant tair oed eu hariannu. Adeg yr arolwg, dim ond tri plentyn oedd yn cael eu hariannu.

Caiff y lleoliad ei staffio gan arweinydd profiadol, sy'n cael ei chefnogi gan gynorthwyydd. Mae gan y ddwy ohonynt gymwysterau NNEB, neu gymwysterau tebyg.

Mae lleiafrif o blant yn dod o gartrefi Cymreig, ond mae'r mwyafrif yn dod o gartrefi Seisnig. Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant efo anghenion dysgu ychwanegol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer plant o gefndir ethnig lleiafrifol, ond adeg yr arolygiad nid oedd unrhyw blant o'r fath wedi'i cofrestru.

Cynhelir gweithgareddau mewn ystafell fach sy hefyd yn cael ei defnyddio fel ffreutur amser cinio. Tu allan mae'r plant yn medru chwarae ar ardal goncrit, gardd neu ar gyfarpar chwarae.

Mae'r perchennog a'r rheolwraig yn cyflawni'r tasgau gweinyddol o ddydd i ddydd. Mae'r lleoliad yn aelod o Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Sir Ddinbych, ac oherwydd hyn yn derbyn cymorth a chefnogaeth reolaidd.

Dyma'r tro cyntaf i'r lleoliad gael ei arolygu gan Estyn.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd;

- Mae'r holl blant yn mwynhau dysgu, ac yn gwneud cynnydd da trwy brofiadau a gynlluniwyd yn drwyadl.
- Mae'r holl blant yn hapus i ddod i'r lleoliad, maent yn ymddwyn yn dda.
- Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm ac maent yn cynnig cefnogaeth dda.
- Mae defnydd da o gwestiynu yn ysgogi'r plant i ddysgu; ac
- Mae perthynas gynnes a gofalgar rhwng y plant a'r staff.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella'n dda oherwydd;

- Mae gan y perchennog ddarlun clir ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r rheolwraig o dan oed ysgol, wedi sefydlu targedau clir ar gyfer parhau i wella.
- Mae methodoleg y Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu ac yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol.
- Mae'r berthynas rhwng y staff a'r plant yn dda iawn; a
- Mae'r ymarferwyr yn adnabod eu plant, ac yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y camau nesaf o addysgu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

- A1 Gynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau TGCh y plant yn bellach;
- A2 Gynllunio ar gyfer dysgu i sicrhau cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth y plant o ddinasyddiaeth byd eang;
- A3 Wneud defnydd mwy hyblyg o'r ardaloedd chwarae i annog y plant i ddefnyddio'r holl weithgareddau; a
- A4 Sicrhau bod barn pawb wedi'i ystyried cyn mynd ati i ysgrifennu'r ddogfen hunan arfarniad.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sut y bydd yn mynd i'r afael a'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

<b>Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?</b>
---

<b>Amherthnasol</b>
---------------------

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

### Profiadau dysgu: Digonol.

Mae'r lleoliad yn darparu'r holl blant o bob gallu a phrofiadau dysgu diddorol ac ysgogol ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Cymerir pob cyfle i wneud defnydd llawn o'r amgylchedd dan do a'r awyr agored i annog y plant i arbrofi efo phrofiadau newydd. Mae'r ymarferwyr yn cyd –weithio'n dda i gynllunio ystod eang o weithgareddau sy'n annog y plant i ddysgu'n effeithiol ac i wneud cynnydd da. Cyfeirir tuag at gyfathrebu.rhifedd a'r sgiliau mwyaf eang yn y cynllunio. Talwyd llai o sylw tuag at ddatblygu sgiliau TGCh y plant.

Mae'r ymarferwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddarpariaeth yr iaith Gymraeg. Maent yn annog y plant i wneud defnydd helaeth o'r iaith yn ystod eu haddysgu. Mae'r holl hysbysfyrddau yn ddwyieithog.. Mae un o'r ymarferwyr yn Gymraes felly mae'r Cymry Cymraeg yn cael bob chwarae teg. Datblygwyd gwybodaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymreig yn effeithiol iawn. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys dathliadau diweddar Ddydd Gŵyl Dewi. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ymweld â lleoedd tu allan i'r lleoliad ei hun sy'n sicrhau gwell dealltwriaeth o'u hamgylchfyd lleol.

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd i blant ddysgu am ddatliadau diwylliannau eraill fel Blwyddyn Newydd Tsieina ond mae angen datblygu'r cyfleoedd i'r plant gael mwy o wybodaeth am eu rhan nhw fel dinasyddion byd eang y dyfodol.

Caiff plant gyfleoedd diddorol i ddysgu am gynaliadwyedd ac ail-gylchu.

### **Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac yn deall pwysigrwydd rhoi cyfleoedd i'r plant ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad gweithredol. Nodwedd gref o'r lleoliad yw llwyddiant yr ymarferwyr i gynllunio cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'u cyfeirio neu eu harwain gan ymarferwyr sy'n bodloni anghenion plant yn hyblyg. Mae llawer o'r gweithgareddau yn apelio at y bechgyn gan eu bod yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau symud wrth ddefnyddio offer gweithwyr yn yr ardal adeiladu. Gosodwyd her i'r plant trwy gwestiynu effeithiol.

Mae ymarferwyr yn cyd-weithio'n dda fel tîm ac maent yn cynnig cefnogaeth dda. Maen nhw'n cymryd rhan yn egniol mewn gweithgareddau fel bod yn gôl-geidwad tua allan neu arwain y sesiynau canu. Rheolir ymddygiad yn dda.

Mae ddulliau gweithredu da mewn lle ar gyfer adrodd yn ôl ar ddatblygiad a chynnydd y plant. Mae'r ymarferwyr yn cynnig adborth llafar fel mae'r plant yn gweithio ac mae hyn yn ddefnyddiol iawn. Mae asesu ar gyfer dysgu yn nodwedd gadarn, gan fod yr ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Maent yn ymateb i'w anghenion, a'u galluoedd amrywiol yn ddigymell, ac yn briodol yn ystod gweithgareddau, ynghyd a chynllunio ar gyfer anghenion penodol y plant. Caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth dda am gyflawniad, lles a datblygiad eu plant drwy gysylltiad dyddiol, adroddiad dyddiol o'r sgiliau a addysgwyd, adroddiad misol o waith y plant a diwrnod a barbeciw blynyddol i'r rhieni.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau a pholisïau yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae trefniadau sefydlu'n sicrhau bod plant yn ymgynffwrdd yn dda yn y lleoliad. Nodwedd gref ydy'r cysylltiad gyda'r ysgolion mae'r Bwthyn Bach yn bwydo.

Mae'r lleoliad yn bodloni rheolau a chyfrifoldebau diogelu. Mae arweiniad clir i bob aelod o staff, ac maent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau. Mae asesiadau risg priodol yn bodoli. Mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Dywed y rhieni neu ofalwyr a'u plant eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad.

Mae yna drefniadau pendant mewn lle ar gyfer cefnogi plant gydag anghenion dysgu ychwanegol os bo angen. Mae yna linellau cyfathrebu da hefyd gyda'r prif asiantaethau allanol.

Mae'r profiadau dysgu yn y lleoliad yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae Bwthyn Bach yn hollol gynhwysfawr a chaiff yr holl blant hawl cyfartal i holl feysydd y lleoliad. Agwedd gref yw'r modd mae'r arweinydd yn gosod pwyslais cryf ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r ymarferwyr yn creu amgylchfyd cefnogol i ddysgu. Ceir cyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd da sy'n cael eu defnyddio'n briodol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae ymwelwyr o'r gymuned yn cyfrannu'n dda at gyfoethogi profiadau'r plant.

Mae'r grŵp o dan oed ysgol yn cyfarfod mewn ystafell fach, gyda mynediad ar gael i fuarth a dwy ardal bellach tu cefn y tŷ sy'n cynnwys offer chwarae mawr a'r ardal dysgu synhwyrau. Mae'r meysydd yma yn adnodd da.

Defnyddir yr ystafell fach yn ddychmygus i greu gwahanol ardaloedd dysgu ac mae'r staff yn gweithio'n galed i ddarpar gweithgareddau pwrpasol. Er bod y buarth cefn a'r ochr yn adnoddau da, mae'n anodd mynd atynt heb oruchwyliaeth uniongyrchol.

Mae'r ymarferwyr wedi mynychu cyrsiau a drefnwyd gan yr Awdurdod Lleol yng ngofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r lleoliad yn llwyddo i greu amgylchfyd deniadol a chroesawgar i'r plant.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### Arweinyddiaeth: Da.

Mae arweinydd y lleoliad a'r rheolwraig yn creu ethos gadarnhaol lle mae plant a staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Rhennir gweledigaeth y lleoliad efo rhieni ar bob cyfle. Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel sy'n cael eu cyfathrebu i'r staff a'r rhieni. Maent hefyd yn darparu cyfeiriad clir ac ethos gadarnhaol tuag at wella safonau.

Mae'r berthynas gyda'r plant a'r rhieni yn gadarnhaol ac yn cyfrannu'n dda at ymdeimlad o gymuned. Mae rhannu gwybodaeth ffurfiol ac anffurfiol gyda rhieni/gofalwyr yn effeithiol. Mae gan y lleoliad system werthuso briodol er mwyn cefnogi a gwella staff.

Mae'r ymarferwyr yn ymdrin yn llawn a hyfforddiant a datblygiadau, er mwyn sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus.

### Gwella ansawdd: Da

Mae'r ymarferwyr yn cynnal trafodaethau rheolaidd ac y maent yn agored i syniadau newydd ac yn fwy na hapus i arbrofi gwahanol ffyrdd o weithio er lles y plant.

Mae hun arfarnu yn barhaol ac mae'r ymarferwyr yn ymgynghori a'r rhieni am y lleoliad, er mwyn cael eu barn, ac mae agweddau o'r ddarpariaeth yn cael ei trafod

gydag athrawes gyswllt y bartneriaeth. Anfonwyd holiaduron blynyddol at y rhieni, defnyddiwyd y dadansoddiad o'r canlyniadau yn effeithiol fel rhan o'r broses hunan arfarnu. Ffordd o gryfhau'r broses yma fyddai i holi'r staff ynghyd a'r rhieni.

Mae'r cynllun datblygu yn nodi targedau priodol ac amseroedd hylaw ar gyfer gwella, ac fe'i defnyddiwyd yn effeithiol gan yr ymarferwyr.

Mae'r ymarferwyr yn mynd i'r afael yn llawn a datblygiad proffesiynol ac yn barod i rannu eu gwybodaeth gydag eraill yn y lleoliad a thu hwnt.

Mae perchennog y lleoliad yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru er mwyn rhannu syniadau ac arfer dda.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaeth dda rhwng yr ymarferwyr. Maent yn rhannu gwybodaeth am y plant ac maent yn gwybod efo pwy i gysylltu â, os oes angen cefnogaeth ychwanegol ar unigolion arbennig. Mae ymarferwyr yn cynnwys rhieni/gofalwyr ym mywyd a gwaith y lleoliad drwy sgwrsio'n anffurfiol yn ddyddiol, a thrwy gadw record dyddiol o'r sgiliau a addysgwyd, hefyd drwy arddangos dyddiadau a gwybodaeth ar hysbysfwrdd yn y cyntedd. Mae'r plant yn mynd a samplau o'u gwaith adre yn rheolaidd.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau da a'r ysgol fabanod leol a'r ysgolion cynradd. Mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan athrawes ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen, sy'n cyd-weithio efo'r lleoliad yn rheolaidd ac maent yn awyddus i ymateb i'r cyngor a'r arweiniad.

Mae ymwelwyr o'r gymuned yn cael eu defnyddio yn effeithiol er mwyn cyfoethogi addysgu'r plant. Mae'r Bwthyn Bach hefyd yn darparu lleoliadau gwerthfawr i fyfyrwyr o'r ysgol uwchradd leol neu o'r Coleg Addysg Bellach. Mae yna gysylltiadau agos rhwng y lleoliad a'r Dechrau'n Deg lleol.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r rheolwraig yn sicrhau bod y lleoliad wedi'i staffio'n briodol gyda staff cymwysedig sy'n medru addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Mae nifer o adnoddau da sy'n cael ei rheoli'n dda er mwyn cynorthwyo'r plant i ddysgu. Mae datblygiad parhaol o'r ardal a elwir yn ardd, yn cynnig cyfleoedd da i'r plant i arbrofi ystod o weithgareddau. Mae'r ardaloedd yma yn hynod o effeithiol gan eu bod yn cynnig digonedd o her i'r plant arbrofi sgiliau o natur anturus.

Mae'r cyfleoedd i integreiddio'r defnydd o'r amgylchedd dan do, a'r amgylchedd awyr agored efo trefniant mwy hyblyg, heb eu datblygu'n llawn. Mae'r lleoliad wedi buddsoddi yn dda yng ngofynion datblygiadol y staff, sy'n cael effaith uniongyrchol ar y safonau addysgu.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r cyllid a gaiff.



## **Atodiad 1**

### **Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

#### **Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Dim ond un ymateb a dderbyniwyd. Fe wnaeth y rhiant/gofalwr ddweud ei fod o/ei bod hi'n yn hapus efo safon y gofal a dderbyniodd y plant.

#### **Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Dywedodd yr holl blant eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus i fynychu'r lleoliad yn ddyddiol.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

Peter Roach	Arolygydd Cofnodol
-------------	--------------------

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn yr ysgol ac oddi ar wefan Estyn  
([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk) <<http://www.estyn.gov.uk/>>)